Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 16 Ebrill 2025, am 6.00pm.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, W. Price, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Swyddog Dinesig a Chymorth Gweinyddol

## 153. DECHRAU'R CYFARFOD, CYHOEDDIADAU AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod a chyfeiriodd at ddigwyddiad trist, sef marwolaeth tad y Cynghorydd A. J. Rutherford. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard ac A. J. Rutherford.

## 154. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd A. R. James fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 11 ar yr agenda (Ymgynghoriad: Symiau Cymudol – Esgobaeth Llanelwy – Prosiect Mynwent Eglwys Sant Tomos) gan ei fod yn ffrind i'r Parchedig Gheorghiu Gould ac yn aelod o gynulleidfa'r eglwys. Byddai'r Cynghorydd James yn gadael y siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

## 155. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ynghylch cyfethol cynghorydd cymuned i gynrychioli Ward Bodfor.

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai hysbysiad yn gwahodd ceisiadau gan unigolion â diddordeb mewn bod yn gynghorydd a llenwi'r swydd wag yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Tref yfory. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fyddai 30 Mai 2025, a byddai'r aelodau'n ystyried y cyflwyniadau ysgrifenedig wedi hynny.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r wybodaeth.*

## 156. COFNODION

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn o gyfarfod y Cyngor a'i bwyllgor i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19 Mawrth 2025 - Cofnodion rhifau 136-152

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 19 Mawrth 2025 - Cofnodion rhifau 54-57

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

**157. CADETIAID ANRHYDEDD Y MAER**

Croesawodd y Maer ei Chadet Anrhydedd, Sarjant Evie Mitchell, a'r Cadet Wrth Gefn, Sarjant Orezi Onibere, i'r cyfarfod a chyflwynodd lythyrau o gyflawniad iddynt i gydnabod eu gwaith yn ystod ei blwyddyn yn swydd y Maer.

**158. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu hi a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at Ddawns Elusennol Cyngor Tref Prestatyn a Gallt Melyd, a fu'n noson ardderchog.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**159. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS MAWRTH 2025 (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau a'r gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1985 | HSBC | 8.00 | Ffi bancio |
| 1986 | BT | 355.13 | Llinellau ffôn a band eang |
| n/a | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| 1989 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,644.11 | Cyflogau net – mis Mawrth 2025 |
| 1987 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,103.76 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Chwefror 2025 |
| 1988 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,269.74 | Didyniadau pensiwn – mis Chwefror 2025 |
| 1848 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,213.33 | Swyddog Apeliadau – taliad 12 o 12 |
| 1849 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 4 o 4 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffi ffôn symudol |
| | | | |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£18,626.05** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 234.74 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo un mis a aeddfedodd ar 24 Mawrth 2025 | 805.74 |
| Amrywiol | Tocynnau / Raffl / Cyfraniadau i ddigwyddiad codi arian y Maer | 565.10 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£1,605.58** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

**160. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheolau sefydlog mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif Taleb: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2000 | Y Cynghorydd C. L. Williams | Hawliad treuliau'r Maer – mis Chwefror – Mawrth 2025 | 300.00 |
| 2001 | Theatr Fach y Rhyl | Tocynt i ddigwyddiad Ahava, 28 Mawrth 2025 (y Dirprwy Faer) | 10.00 |
| 2002 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | Prydau bwyd i ddau gynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod ar 2 Mai 2025 | 44.00 |
| 2003 | Delwedd Ltd | Ffi cofrestru parth | 24.47 |
| 2004 | Cyngor Sir Ddinbych | Ffi gwasanaeth y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025. | 5,847.33 |
| 2005 | Mark Moorhead | Trin y lawnt yn y Gerddi Coffa | 42.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£6,267.80** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan Glerc y Dref a dau Gynghorydd.*

**161. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2024/25**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ar y cyd gyda'r Swyddog Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cynghori fod y llog a gynhyrchwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 yn £16,512. Swm sylweddol a oedd £12,512 yn uwch nag a ragwelwyd, diolch i ymdrechion y Swyddog Cyllid.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad, gyda llawer o ddiolch i'r Swyddog Cyllid.*

**162. CYFRIF ELUSEN Y MAER**

Hysbysodd Clerc y Dref fod cyfrif banc ar gyfer cronfa elusen y Maer wedi'i sefydlu erbyn hyn, yn dilyn sylwadau gan archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol y

Cyngor Tref na ddylai arian a godwyd gan y Maer bob blwyddyn gael ei dalu i mewn i gyfrif banc y Cyngor.

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai'r cyfrif yn gorfod talu ffi blynyddol o tua £100 a chynigiodd ddau ddewis i'r aelodau i dalu'r ffi:

Dewis 1 – i'r Maer neilltuo £100 o lwfans y Maer i dalu'r ffi.

Dewis 2 – i'r Cyngor Tref gytuno i dalu'r gost drwy dalu £100 i gyfrif Elusen y Maer bob blwyddyn a rhoi ychwanegiad, pe bai'r ffi yn fwy na £100.

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai Dewis 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Tref wneud y taliad fel gwariant Adran 137, ac felly byddai'n rhaid datgan fod yr arian yn cael ei wario er budd uniongyrchol peth neu ran o ardal y Rhyl, yn gymesur â'r lefel sy'n cael ei wario.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n ffafrio Dewis 1.*

**163. YMGYNGHORIAD: SYMIAU CYMUDOL – ESGOBAETH LLANELWY – PROSIECT MYNWENT EGLWYS SANT TOMOS**

Ymhellach i gofnod rhif 115 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024, cyfeiriodd Clerc y Dref at gais blaenorol gan yr eglwys am lythyr o gefnogaeth i'w chais am arian symiau cymudol, a ddarparwyd gan y Cyngor Tref.

Roedd y cais hwn am yr un gefnogaeth i gais pellach am ail ran y prosiect (yr ohebiaeth wedi'i dosbarthu gyda'r agenda) gerbron yr aelodau i'w ystyried nawr.

Roedd yr aelodau'n teimlo, er eu bod o blaid y cais, fod y wybodaeth a gyflwynwyd ychydig yn amwys.

***PENDERFYNWYD*** *na allai'r aelodau gefnogi'r cais fel y mae, yn anffodus, ond byddent yn ei ailystyried os gellid cyflwyno rhagor o fanylion ac amcangyfrif o'r costau.*

**164. EITEM GAN AELODAU: TREF DACLUS**

Gofynnodd y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, K. R. Jones a W. Price am gefnogaeth yr aelodau i gyflwyno menter Tref Daclus yn y Rhyl yn ystod mis Mai 2025.

Soniodd y Cynghorydd Jones am yr ysbryd cymunedol amlwg o ran casglu sbwriel, ac roedd yn gobeithio y gellid harneisio hyn i greu grŵp mwy a fyddai'n cael ei drefnu i godi sbwriel am gyfnod o dair wythnos yn ystod mis Mai, gan ddechrau ddydd Llun, 12 Mai, mewn lleoliadau allweddol, gan weithio ochr yn ochr â 'Penny the Postcode Gardener' a swyddogion Strydlun Cyngor Sir Ddinbych.

Dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd ef a'r Cynghorwyr Blakeley-Walker a Price yn gweithredu fel cynghorwyr ar y mater hwn, ond fel unigolion, gan estyn gwahoddiad i'r holl gynghorwyr ddod draw i gymryd rhan yn y sesiynau 'Prosiect y Rhyl Daclus' drwy gydol mis Mai.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am gefnogaeth y Cyngor Tref drwy ymuno gyda nhw yn y sesiynau ac i helpu eu hyrwyddo drwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain ac ati.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cyngor Tref yn cefnogi 'Prosiect y Rhyl Daclus' yn llwyr.*

**165. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

**166. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**167. EITEM GAN AELOD MEWN CYFRINACHEDD**

Cynghorodd y Cynghorydd B. Mellor, ar ran y Cynghorydd A. J. Rutherford, eu bod wedi cyfarfod â mudiad gyda'r nod o gyflwyno digwyddiad adnabyddus a sefydliedig yn ardal de orllewin y Rhyl (Y Cob, Marsh Tracks a llwybr troed ar lannau'r Afon Clwyd), a fyddai'n hybu iechyd a llesiant y cyfranogwyr.

Roedd y Cynghorydd Rutherford yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i ddarparu costau sefydlu un tro'n unig i alluogi cynnal y digwyddiad wythnosol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r digwyddiad a'r gost un tro'n unig o £4,000 + Treth ar Werth.*

**168. SEFYDLIAD Y CYNGOR TREF**

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad mewn cyfrinachedd i'r aelodau ynghylch gwaith y Pwyllgor Staffio hyd yma yn adolygu'r pedair swydd yn y Cyngor Tref, o gofio ei ymddeoliad yn fuan, i wneud yn siwr eu bod yn addas i'w pwrpas i wasanaethu a datblygu'r Cyngor Tref yn y dyfodol.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau roi awdurdod llawn i'r Pwyllgor Staffio fwrw ymlaen mor gyflym ag y bo modd.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdod llawn i'r Pwyllgor Staff fwrw ymlaen.*

**169. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..……………………..